

SL(5)770 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"), sy'n llywodraethu'r drefn o ran ad-dalu benthyciadau i fyfyrrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr. Mae'r newidiadau yn ganlyniadol i'r newid i'r trothwy ar gyfer dechrau ad-dalu benthyciadau i fyfyrrwyr yr Alban.

Diben y Rheoliadau yw gwneud newidiadau i Reoliadau 2009 er mwyn hwyluso:

- Cyflwyno trothwy ad-dalu newydd ac unigryw sy'n seiliedig ar enillion ar gyfer benthyciadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg (yr Alban) 1980, a ddiffinnir fel "Benthyciadau i Fyfyrrwyr yr Alban";
- Darparu hysbysiadau gwybodaeth mewn fformat electronig i fenthycwyr;
- Diwygiad i Reoliad 17(ca)(ii) i egluro nad yw'n rhoi swyddogaeth yn ôl disgrisiwn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem).

Pan fydd unigolion yn ad-dalu math arall o fenthyciad i fyfyrrwyr a benthyciad i fyfyrrwyr yr Alban, bydd y Rheoliadau'n darparu ar gyfer sut y dylid cyfrifo dosraniad o'r ad-daliad rhwng y cynlluniau ad-dalu.

Mae Rheoliadau 2009, a wnaed fel rheoliadau cyfansawdd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) a'r Ysgrifennydd Gwladol, yn cynnwys darpariaethau (nad ydynt wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru) a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru a Lloegr sy'n ymwneud â'r system dreth a weithredir gan CThem. Mae rhai darpariaethau eraill yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

Gweithdrefn

Negyddol cyfansawdd.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.



Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod y Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU.

O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

"Given the composite nature of the regulations and that no routine Parliamentary processes exist by which to lay bilingual regulations before Parliament, these Regulations will exceptionally be made in English only."

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

